

Fforwm Eciwmenaidd Taiwan – Eglwys Bresbyteraidd Taiwan



'Galwad broffwydol i gyd deithio gydag Eglwys Bresbyteraidd Taiwan er mwyn sicrhau cyfiawnder a heddwch i bobl Taiwan ac Asia-Môr Tawel'

Ym mis Tachwedd 2018 es i ac Anna Jane Evans (Cymorth Cristnogol) i Daiwan. Yn gryno, mae'r dyfyniad uchod yn esbonio pam ein bod ni yno. Roedd pobl o bob cwr o'r byd wedi ymgynnull yng Ngholeg Beiblaidd Presbyteraidd Taiwan yn Hchinshu i ddysgu mwy am Daiwan a'i phobl.

Cyn y brif gynhadledd roedd yna gyfarfod ar gyfer pobl ifanc; roedd hyn yn gyfarfod diwrnod. Yn ystod y dydd, roeddem yn dysgu am statws rhyngwladol Taiwan trwy edrych ar hanes Taiwan fel gwlad. Yn bersonol, dysgais ddau beth yn benodol.

Bod rôl Taiwan yn y rhyfel wedi newid llawer o weithiau.

Mae Taiwan wedi bod yn chwarae rhan fawr yn y byd fel darparwr adnoddau naturiol.

Adran arall roeddwn yn archwilio oedd *Cyfiawnder Trawsnewidiol Pobl Frodorol Taiwan*. Hynny ydi newidiadau cymdeithasol Taiwan, y wlad a'r iaith.

Ac yn olaf, trawsnewid cyfiawnder yr 'Authoritarian – Era' sef y weithred o hybu cyfiawnder trawsnewidiol. Mae'r term 'cyfiawnder trawsnewidiol' yn 'delio gyda'r gorfennol' gan wybod 'beth ddigwyddodd mewn gwirionedd' yn y gorfennol pell.

Un o sialensiau mwyaf mae pobl Taiwan yn ei wynebu yw bod Tsieina yn hawlio ei phenarglwyddiaeth dros Daiwan yn rhan o'r famwlad, hynny yw Tsieina. Mae pobl y wlad yn gofyn y cwestiwn, 'Pam na allwn adael Taiwan i fod yn Taiwan ar ei hawl ei hun?' Mae diwylliant y wlad a hyd yn oed ei hiaith mewn peryg o gael ei newid a'i anghofio pe bai hyn yn digwydd.

Yn y prynhawn, roeddwn wedi dewis un o'r testunau yma i drafod ymhellach mewn grwpiau llai. Dewisais yr ail bwnc sef

'Cyfiawnder Trawsnewidiol Pobl Frodorol Taiwan'. Dechreusom y sesiwn drwy rannu rhyngedig am ein hunain ac am ein gwlad. Roedd hi'n bleser cael rhannu am Gymru a'n hiaith a hefyd i glywed am sefyllfa iaith y gwledydd eraill yn y grŵp. Roeddem i gyd yn gallu gweld nodweddion sy'n debyg rhwng ein gwledydd, sy'n dod â ni at ein gilydd mewn ffordd arbennig.

pen draw yn hawlio penarglwyddiaeth dros y byd, sef Duw.

Fel y gallwch ddechymgu, mae sefyllfa Taiwan a Tsieina yn un cymhleth iawn. Mae llawer o broblemau gwleidyddol, cymdeithasol ac amgylcheddol yn chwarae rhan yn hyn. Hyd yn oed ar ôl wythnos o ddysgu am hyn, nid wyf yn gwybod bob peth o bell ffordd. Mae hi'n

hawdd colli gobaith ac rydw i'n gofyn y cwestiwn, beth allaf ei wneud? Beth allwn wneud fel Eglwys Cymru i helpu Taiwan?

Un o brif resymau cynnal y gynhadledd yma oedd cael Cristnogion o wledydd ar draws y byd i gyd i ddysgu am sefyllfa Taiwan, efallai i ddysgu mwy, neu fel yn fy achos i, i ddysgu am y tro cyntaf. Nid oes gan y rhan fwyaf ohonon lawer o bŵer i newid unrhyw beth yn uniongyrchol ond mae gennym i gyd y pŵer o weddi. Gallaf yn bersonol weddio dros Daiwan a gall Eglwys Cymru hefyd weddio

dros y wlad os ydynt yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Fel gwlad, rydym yn gallu uniaethu gyda'r wlad mewn amryw o ffyrdd gyda'n hanes o ymladd dros ein hawliau fel gwlad yn erbyn pŵerau llawer cryfach na ni, a hefyd sefyllfa ein hiaith yn bresennol ymysg ein pobl ifanc. Nid yw ein sefyllfa ni mor fregus o bell ffordd ond mi allwn ni uniaethu â nhw.

Rydwi i eisiau gorffen gyda rhywbeth dywedodd Rhee Hanbeet o Eglwys Bresbyteraidd Korea yn ystod y diwrnod ieuencid. Dywedodd hi 'Fel pobl Dduw, mae gennym gyfrifoldeb i ymladd dros heddwch yn ei deyrnas. Rydym yn gwybod bod Duw yn Dduw cyfiawn, neu

(parhad ar dudalen 8)



Diwedd y prynhawn, roeddem yn paratoi cyflwyniad ar gyfer ei gyflwyno i bobl y brif gynhadledd y diwrnod canlynol. Dyma oedd ein cyfle i ddweud ein barn fel pobl ifanc ac i gynnig ein sylw a syniadau ynglŷn â sefyllfa pobl frodorol Taiwan.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, fe wnaethom ganu 'Walking in the light of God' mewn 3 iaith wahanol er mwyn dathlu ein hamrywiaeth ond hefyd dangos ein hundod.

Yn ystod y brif gynhadledd roeddem yn dysgu hyd yn oed yn fwy am sefyllfa Taiwan drwy astudiaethau Beiblaidd cyd – destunol, areithiau, a thrafodaethau. Cawsom ambell i wasanaeth yn ystod yr wythnos er mwyn cofio pwy sydd wedi ein harwain at y gynhadledd a pwy sydd yn y

Galwad? Heddiw?

Clywir o bryd i'w gilydd y gŵyn nad oes weinidogion nac ymgeiswyr newydd yn ein plith. Yn wir y rhagdybiaeth yw eu bod ill dau mor brin bellach â brithyll yn y Sahara!

Ond mae ymgeiswyr gennym. Ac mae stori ddiddorol ganddynt am eu 'galwad' i weinidogaethu yng Nghymru heddiw trwy EBC. Yn ystod y misoedd nesaf cawn gyfle i'w cyfarfod ac i glywed am eu profiad a'i gobeithion. A heddiw, cawn ymateb Monica O'Dea i gais y golygydd!

Pam trafterthu?

'Hoffwn i gael gair os yn bosibl, Monica. Allet ti alw heibio?'

Ac mi wyddwn beth fyddai'r blaenor caredig a duwiol hwn am gael gair fo fi amdano!
Roeddwn wedi synhwyro galwad i weinidogaethu yn fy ugeiniau cynnar. Roeddwn hyd yn oed wedi mynd mor bell â cheisio profi'r alwad trwy Eglwys yr Alban. Ond o edrych yn ôl deallaf nad oedd yr amser yn gywir. Nid oeddwn yn teimlo'r taerineb a'r ymdeimlad o frys yr oedd eraill yn ei ddisgrifio. A llithrodd y blynyddoedd heibio o un i un.
Daeth nifer o droadau annisgwyl i'm rhan ac yn awr tri degawd yn ddiweddarach, â mi bellach yn aelod yn Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, roedd galwad Duw ar fy mywyd yn cael ei ddefro ynof o'r newydd.

Mae nifer wedi fy holi pam y byddwn yn cynnig fy hun i weinidogaethu mewn enwad sydd wedi colli 90% o'i aelodaeth yn ystod y ganrif diwethaf?
Pam trafterthu? Beth yw'r pwynt?

Ateb deublyg sydd gennyf fel arfer i gwestiynu o'r fath.

Yn gyntaf, ar lefel ddynol, dwi'n berson sy'n ymateb i angen. Felly pan es i i siarad efo'r blaenor, pan ddywedodd wrthyf, 'Dy' ni mor fyr o weinidogion ordeiniedig heddiw. Mae angen gweinidogion ar ein

heglwys,' teimlais yr awydd i gamu i'r bwllch.

Nid cymhelliad dynol oedd hwn ond roedd gennyf ymdeimlad real bod yr Ysbryd Glân yn fy nghymell o'r newydd i ymgeisio am gael bod yn weinidog unwaith eto. Ac i weld os byddai'r drws yn agor y tro hwn – nid er fy elw na'm lles fy hun – ond er mwyn gwasanaethu'r eglwys ac er mwyn hyrwyddo Teyrnas Dduw.



Yn ail, cefais fy annog a'm harwain trwy'r Gair. Cyfeiriwyd fi gan gyfaill i mi, oedd hefyd yn cael ei hyfforddi, at adnod yn Esther 4:14. Anogodd Mordecai ei nith Esther trwy ei hatgoffa ei bod wedi cael ei galw i gamu mlaen mewn ffydd gan gredu 'Pwy a ŵyr nad ar gyfer y fath amser â hwn...' y daeth yr alwad arni. Roedd hyn yn adleisio yn fy nghalon i.

Fforwm Eciwmenaid Taiwan (parhad o dudalen 1)

doedd dim rheswm i Iesu fynd i farw ar y groes. Dydi Duw DDIM yn hoffi pechod, ac felly fel ei blant dylem ninnau hefyd ymladd dros beth sy'n gywir. Dywedodd Rhee hefyd 'Rydym a'r un ffydd, mewn un Duw – mae dagrau ein cymdogion hefyd yn ddagrau i ni.'



Anna Jane Evans, Carys Humphreys a Siwan Jones

Mae ein ffrindiau yn Nhaiwan yn frodyr a chwiorydd i ni yng Nghrist, felly rydym ni yn sefyll gyda nhw mewn gweddi ac mewn gweithred.

Roedd hi'n bleser bod yn rhan o'r gynhadledd yma, rydw i wedi dysgu llawer a chyfarfod ffrindiau newydd. Rydw i wedi datblygu angerdd tuag at greadigaeth Duw mewn ffordd newydd ar ôl y profiad yma, mae Duw wedi creu gymaint o wledydd, llwythau ac ieithoedd gwahanol ac yn dathlu eu gwahaniaethau.

'RHYW DDYDD BYDDWN YN RHYDD, RHYW DDYDD BYDD HEDDWCH.'

Ree Hanbeet, 2018.

Siwan Jones

Rwy'n gweld amseru Duw yn fy mywyd.

Mae fy nau fab wedi tyfu'n ddynion ifanc a bellach does dim angen i 'mam' fod o gwmpas yn barhaol. Mae fy ngyrfaedd fel athrawes ac fel cydlynnydd cynllun *Gartre o'r Ysbyty* i'r Groes Goch yn Sir Faesyfed wedi fy nghymhwyso i'r dasg sy'n fy wynebu.

Mae'r cyfnod o hyfforddiant ym Mhrifysgol Caerdydd a Choleg y Bedyddwyr wedi fy nghyfoethogi'n academiaidd ac yn ysbrydol. Ac rwyf wedi cael fy mendithio'n fawr gan y rhaglen o hyfforddiant mae Delyth Oswy wedi ei baratoi ar gyfer Ymgeiswyr am y Weinidogaeth a gweithwyr eraill EBC.

Felly, mae fy nghalon yn llawn o obaith wrth i mi ddechrau gwasanaethu fel gweinidog yn Eglwys Bresbyteriaidd Cymru – eglwys sydd wedi gweld cyfnodau o gynydd ac o dwf ac sydd wedi dyfalbarhau trwy gyfnodau o ddirywiad ac o heriau mawrion.

Credaf fod gan Dduw waith ar ein cyfer yng Nghymru a bod gan bob yr un ohonom ei ran a'i gyfrifoldeb.

Y mae wedi datguddio trwy gymuned ffydd a thrwy ei Air y camau a'r llwybrau mae Ef am i mi ei gerdded. Rwy'n ymddiried ynddo am bob cam sydd o'm blaen.

Monica O'Dea

CALENDR Y GOLEUAD

Henaduriaeth Trefaldwyn. Seion, Croesoswallt. Dydd Sadwrn, Chwefror 9fed, am 1.30.

Henaduriaeth Arfon. Eglwys Bethania, Y Felinheli, prynhawn Mawrth, Chwefror 19eg, am 1.30 p.m. Bydd y Pwyllgor Gwaith nos Wener, Chwefror 8fed, am 6.30 p.m. yn Seilo, Caernarfon.

Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain. Capel y Groes, Wrecsam, Chwefror 20fed, am 7.00 o'r gloch. Anerchiad y Cyn-Lywydd a throsglwyddo'r llywyddiaeth i'r Parchg. Eirlys Gruffydd-Evans.

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: goleuad@ebcpcw.org.uk

Hysbysebion i Swyddfa'r Goleuad, Gwasg y Bwthyn, Tŷ Cadnant, Parth 2, Lôn Hen Felin, Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD. (01286) 672018. e bost: goleuad@btconnect.com

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost fel Newyddiadur.

ISSN 0017-1700



9 770017 170003